Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Priory Talocher

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  15/12/2016**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ac anghenion cysylltiedig yw Ysgol Priory Talocher.  Caiff ei gweinyddu gan Wasanaethau Addysg Priory.  Mae'r ysgol hon yn rhan o Grŵp ehangach Priory sydd â thros 30 o ysgolion a cholegau arbenigol ledled Cymru a Lloegr.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd, yn ogystal ag ar gyfer disgyblion sy'n preswylio yng nghartrefi plant Priory.  Mae 30 disgybl rhwng 9 ac 19 oed, y mae 28 ohonynt yn fechgyn a dwy yn ferched.  Mae gan bob un o'r 30 disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae un deg chwech o ddisgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Dechreuodd pennaeth newydd ar ei swydd ym Medi 2016.  Mae'r cyn-bennaeth bellach yn bennaeth sydd â chyfrifoldeb ehangach am Priory Talocher ac un arall o ysgolion y cwmni.

Mae'r ysgol wedi cael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod lleol i ymestyn y safle addysgu trwy ddarparu blociau addysgu cynradd ac uwchradd newydd yn ogystal â phrif neuadd ac adeilad gweinyddu.  Y nod yw agor y safle newydd erbyn Medi 2017.  Dylai'r ysgol ofyn am ganiatâd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud newid perthnasol i'r safle newydd a chynyddu nifer y disgyblion ar y gofrestr hefyd.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran ennill cymwysterau achrededig ar eu lefel eu hunain, o ystyried eu man cychwyn isel.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodelau rôl da ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, maent yn gwneud eu disgwyliadau'n glir, yn rheoli ymddygiad gwael yn dda ac yn darparu adnoddau o ansawdd da.

Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr ar gyfer disgyblion.

Ceir prosesau effeithiol i asesu, monitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn llywio cynllunio athrawon er mwyn gwneud yn siŵr bod y cwricwlwm yn bodloni anghenion dysgu disgyblion.

Mae system wobrwyo'r ysgol yn effeithiol o ran annog disgyblion i fyfyrio ar eu hymddygiad eu hunain ac ymddygiad ei gilydd.

Mae'r trefniadau bugeiliol a strwythurwyd yn ddiweddar yn rhoi cymorth priodol i ddisgyblion yn y dosbarth a thrwy gydol y dydd.

Mae'r safle yn darparu amgylchedd dysgu deniadol sy'n cael ei gynnal yn dda.

Mae'r tîm arweinyddiaeth newydd yn adolygu darpariaeth yn effeithiol ac yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer datblygu.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â rhan fwyaf o argymhellion yr adroddiad blaenorol.

### Meysydd i'w datblygu

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd arafach wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd nag wrth ddatblygu medrau mewn pynciau eraill.

Mae'r amserlen ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn nodi gwersi mewn llythrennedd, rhifedd, cerddoriaeth, addysg gorfforol ac addysg bersonol a chymdeithasol. Yn ymarferol, caiff disgyblion gyfleoedd i brofi cwricwlwm eang, er enghraifft trwy eu testun cyfredol ar 'The Jungle Book'. Mae cynllunio athrawon yn fanwl. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen yn rhoi trosolwg digon clir o'r gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r ysgol yn datblygu ei hystod o adnoddau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid oes digon o lyfrau darllen ar lefel sy'n briodol i oedran a chyfnod.

Mae cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn cysylltu'n briodol â'r amcanion yn natganiadau anghenion addysgol arbennig disgyblion ac fe gânt eu hadolygu bob tymor. Fodd bynnag, mae targedau a nodwyd yn y CAUau yn rhy gyffredinol ac felly nid yw hi bob amser yn hawdd i athrawon fesur cynnydd disgyblion wrth eu cyflawni.

Mae'r ysgol yn cadw llyfrau cofnodi ar wahân o ddigwyddiadau difrifol, mesurau rheoli ychwanegol, ac ymyriadau corfforol. Gall staff gofnodi manylion am yr un digwyddiad ym mhob un o'r 3 chofnod â llaw, cyn cwblhau adroddiad manylach yn electronig y rhoddir copi ohono i'r perchennog. O'r cofnodion hyn, mae'r ysgol yn dadansoddi ymddygiadau staff a disgyblion yn briodol. Er bod yr ysgol yn cynnal cofnodion gofalus o ddigwyddiadau, ceir dyblygu diangen yn y cofnodion rheoli ar gyfer digwyddiadau difrifol a mesurau ychwanegol.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau disgyblion mewn llythrennedd

A2 Sicrhau bod yr amserlen yng nghyfnod allweddol 2 yn adlewyrchu'r gwaith yn ymarferol, ac yn rhoi ystod ddigon eang o brofiadau i ddisgyblion

A3 Datblygu ystod o adnoddau darllen sy'n briodol i oedran a chyfnod, yn enwedig ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A4 Sicrhau bod targedau yng nghynlluniau addysg unigol disgyblion yn fwy penodol a mesuradwy.

A5 Adolygu'r systemau i gofnodi digwyddiadau difrifol a mesurau rheoli ychwanegol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cymryd camau i gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi datblygu polisi cwricwlwm priodol ac yn trefnu ei fod ar gael i rieni a gofalwyr.

**Argymhelliad 2: Gwella prosesau hunanarfarnu i gynnwys mwy o bwyslais ar safonau cyflawniad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o ddata disgyblion ac mae wedi nodi bod angen ehangu cwmpas ei darpariaeth i gynnig mwy o her academaidd i bob disgybl. Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o anghysondebau rhwng deilliannau ar gyfer gwahanol bynciau erbyn hyn. O ganlyniad, maent wedi gwella cynllunio ar draws y cwricwlwm ac maent yn rhoi strategaethau priodol ar waith i wella'r deilliannau ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl.

**Argymhelliad 3: Cynnwys pob un o'r athrawon mewn rhaglen strwythuredig o gyfleoedd i arsylwi arfer effeithiol gyda ffocws clir ac arfarnu pwrpasol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae staff wedi cymryd rhan mewn ystod eang o ymweliadau i arsylwi arfer dda mewn gwahanol leoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys coleg chweched dosbarth yn ogystal ag ysgolion arbennig, cynradd ac uwchradd. Mae nod penodol i bob ymweliad, er enghraifft i wella asesu ac olrhain neu sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni anghenion disgyblion unigol yn fwy effeithlon. Yn yr arfer orau, mae staff wedi nodi strategaethau priodol i'w helpu i wella eu harfer eu hunain o ganlyniad i'r ymweliadau. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu mwy o annibyniaeth trwy ganiatáu mwy o amser iddynt ateb cwestiynau, ac osgoi dibynnu'n ormodol ar adnoddau'r rhyngrwyd.

**Argymhelliad 4: Darparu cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni roi sylwadau ar adroddiadau tymhorol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r adroddiadau academaidd bob hanner tymor bellach yn cynnwys adran ar gyfer sylwadau disgyblion a sylwadau rhieni/gofalwyr.

**Argymhelliad 5:  Gwella datblygiad medrau llythrennedd disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol gyda medrau llythrennedd sydd islaw'r safon ddisgwyliedig am eu hoedran.  Mae llawer ohonynt yn wrthwynebol i ddatblygu'r medrau hyn.  Mae dadansoddiad data'r ysgol yn dangos bod disgyblion wedi gwneud llai o gynnydd mewn Saesneg na phynciau eraill yn 2015-2016 yn ystod tymor yr haf.

Y tymor hwn, mae'r ysgol wedi sefydlu gweithgor staff i ddatblygu cynllun gweithredu i godi safonau mewn llythrennedd.  Mae'r grŵp yn adolygu adnoddau'r ysgol, yn enwedig ar gyfer darllen lle maent wedi nodi bod angen asesiad diagnostig mwy trylwyr.

Mae staff yn gweithio gydag ysgolion eraill yng ngrŵp Priory i gymedroli gwaith disgyblion.  Mae'r cydlynydd pwnc a benodwyd yn ddiweddar hefyd yn datblygu cyswllt ag adran Saesneg mewn ysgol gyfun i rannu arfer dda.  Er enghraifft, mae'r athrawon wedi adolygu cynllunio tymor canolig gyda'i gilydd ac wedi rhannu cymorth ar-lein.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Priory Talocher |
| **Rhif yr ysgol** | 6796014 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 12/10/2016 |
| **Perchennog** | Gwasanaethau Addysg Priory |
| **Staff** | 8 o athrawon amser llawn, gan gynnwys 2 athro newydd gymhwyso (1 absenoldeb mamolaeth)<br>7 aelod o staff bugeiliol<br>2.5 aelod o staff gweinyddu<br>2 aelod o staff cynnal |
| **Nifer y disgyblion** | 30 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 03/06/2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 06/04/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Cofnodol |
| Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |